**Astudiaeth Achos**
**Cyngor Sir y Fflint**

**Gweithgaredd y Prosiect:**
Gweithio gyda thîm rheoli Cefn Gwlad Sir y Fflint.

Roedd y cyswllt cychwynnol gyda sir y Fflint (Cyngor Sir y Fflint) drwy sefydliad partner, Cynnal Cymru. Ar y pryd hwnnw roedd gan sir y Fflint ddiddordeb i gefnogi gyda chyfleoedd hysbysebu, cadarnhau cysylltiadau gyda sefydliadau gwirfoddoli lleol eraill a phrosesau symleiddio ar gyfer staff a gwirfoddolwyr o fewn y Cyngor.

Yn dilyn cyfarfodydd cychwynnol, fe geisiom ddal cyfleoedd gwirfoddoli, prosesau a chefnogaeth gyfredol, yn ogystal ag unrhyw ddyheadau o ran cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli. Aethom ati hefyd i lunio rhestr o syniadau yn gysylltiedig gydag ehangu eu cynnig gwirfoddoli, gan ofyn am eu mewnbwn ar ba un fydden nhw'n ei hoffi/ oedd ganddynt y capasiti i'w flaenoriaethu. Cafodd Cyhoeddusrwydd a Marchnata cyfleoedd oedd yn bodoli eisoes ei adnabod fel un maes o'r fath a oedd angen cefnogaeth ychwanegol a'i flaenoriaethu, a'i symud ymlaen gyda Liz Mutch, Llais y Goedwig. Roedd cefnogaeth hyfforddi ar gyfer gwirfoddolwyr yn ail faes ffocws, wedi ei symud ymlaen gan Hywel Dodd, Llais y Goedwig.

**Crynodeb o'r prosiect**

Fe wnaethom gynnig cefnogi gwella cysondeb cyfathrebu i wirfoddolwyr gyda thempledi cylchlythyrau a system gysylltu ganolog fel bod diweddariadau a gwybodaeth yn gallu cael eu symleiddio, yn ogystal â chefnogi cyfleoedd marchnata gwell drwy byrth oedd eisoes yn bodoli. Byddwn yn cefnogi (gyda pholisïau a systemau) ac yn adrodd ar y broses o gael un o'r grwpiau ymreolaethol ar dir y Cyngor yn cyflawni statws 'Buddsoddwyr mewn Gwirfoddoli', er budd grwpiau eraill ar hyd a lled Cymru sydd â diddordeb mewn gwneud yr un fath. Aethom ati hefyd i helpu hwyluso rhaglen o hyfforddiant i wirfoddolwyr ar draws gwasanaethau Cefn Gwlad yn y Sir.

Mae Parc Treftadaeth Greenfield Valley yn safle mawr gyda nifer o adeiladau sy'n dangos olion y chwyldro diwydiannol, camlas, mynachdy a nifer o lefydd eraill o ddiddordeb hanesyddol. Mae'r tîm Rheoli Cefn Gwlad yn gweithio o fewn y safle hwn, gyda thros 500 o wirfoddolwyr ar eu cronfa ddata. Roeddent yn chwilio am ffordd o wella sut maent yn cysylltu gyda'r gwirfoddolwyr hyn, er mwyn gwella nifer y rhai sy'n gwirfoddoli, a'u cadw, a hwyluso prosesau cynefino. Roedd y tîm Rheolaeth Cefn Gwlad eisiau sefydlu cylchlythyr mailchimp, diweddaru eu ffurflenni cofrestru a chyfleoedd, a gwella gwelededd cynigion gwirfoddoli ar wefan y Cyngor nad oedd yn ei gwneud hi'n ddigon hawdd i wirfoddolwyr ddod o hyd i gyfleoedd perthnasol.

Bu i Swyddog Datblygu Llais y Goedwig, Liz Mutch ymgymryd ag ymarfer cwmpasu ar wefan y cyngor, gan roi ei hun yn sefyllfa gwirfoddolwr oedd yn chwilio am gyfleoedd o fewn ardal Sir y Fflint, gan edrych yn fanwl ar ba mor hir yr oedd hi'n ei gymryd i ddod o hyd i'r cyfleoedd hynny, sut oedden nhw'n cael eu disgrifio, a sut roedd hynny'n cysylltu gyda meysydd adrannau eraill o fewn Cyngor Sir y Fflint. Roedd yn broses gymharol gymhleth, lle roedd gofyn clicio drwy nifer o ddolenni i ddod o hyd i'r cyfleoedd hyn. Gwnaed argymhellion ar gyfer hwylustod a chysondeb a'u rhoi ar

waith.

Yn ail i gwmpasu'r wefan fe wnaethom edrych ar wybodaeth ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol oedd yn berthnasol i Barc Treftadaeth Greenfield, gan y parc ei hun a'r Cyngor, a sut y gall y ddau fod yn gwahaniaethu o safbwynt cynnwys, ynghyd ag unrhyw aliniad brand a/neu gysylltiadau rhwng y ddau. Gwnaed argymhellion gennym ar sut y gallai'r rhain gael eu symleiddio a sut allai cyfleoedd gael eu gwella. Yn yr un modd, fe wnaethom edrych ar ffurflenni cais gwirfoddolwyr, a'r iaith a ddefnyddiwyd ar ffurflenni'r Cyngor o'u cymharu gyda ffurflenni Greenfield Park. Rydym yn gallu darparu canllawiau ar sicrhau eu bod yn cadw at GDPR ac yn cyfathrebu'n gyson ynghylch yr un pethau. Cafodd ffurflen wirfoddoli newydd ei chreu y gellid ei defnyddio gan y ddau barti. Er bod ganddynt wahaniaethau er mwyn adlewyrchu anghenion y ddau grŵp, roeddent yn cyfleu gwybodaeth gyson, wedi'i diweddaru.

Aethom ati i edrych ar y pecynnau mwyaf cost effeithiol ar gyfer cylchlythyr i'w cronfa ddata gwirfoddolwyr. Yn niffyg unrhyw gyllideb, y datrysiadau mwyaf cost effeithiol a allai fodloni anghenion y tîm rheoli cefn gwlad oedd MailerLite, oedd yn cwrdd â'r brîff, ac y mae'n llawer rhatach na mailchimp tra'n cynnig y ffwythiannau angenrheidiol, yn ogystal â bod yn hawdd i hyfforddi pobl arno a'i gynnal.

Rydym wedi treulio amser yn diweddaru ac yn glanhau eu cronfa ddata gwirfoddolwyr, gan greu persona cefn gwlad sir y Fflint gyda MailerLite, wedi cynhyrchu cylchlythyr ac yn anfon y postiad i'r gronfa ddata wedi'i gwella. Rydym yn gobeithio rhedeg sesiwn ar lein ar sut i uwchlwytho delweddau i'r postiad, gan wirio bod gan yr holl ddelweddau y caniatâd priodol, wedi'i ddilyn gan sesiwn gyda'r buddsoddwyr a'r gwirfoddolwyr a fydd yn rhoi cynnig ar y ffurflenni cais, ac yn rhoi mewnbwn i ddatblygiad y cylchlythyr.

Ffurfiodd Swyddog Datblygu Llais y Coed, Hywel Dodd, bont rhwng Gwirfoddoli Sir y Fflint a darparwyr hyfforddiant. Cafodd anghenion hyfforddi eu hadnabod gan y gwirfoddolwyr, gyda Llais y Goedwig yn defnyddio ei gysylltiadau er mwyn adnabod a threfnu hyfforddiant. Derbyniwyd adborth cadarnhaol gan wirfoddolwyr oedd yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu sgiliau'n cael eu datblygu. Roedd yn bartneriaeth effeithiol oedd yn adeiladu ar gryfderau y naill bartner a'r llall. Roedd hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant Torri Llwyni, ar gyfer 6 gwirfoddolwr, Tocio Coed Ffrwythau ar gyfer 12 gwirfoddolwr, Pladuro ar gyfer 10 gwirfoddolwr, yn ogystal â Chadw Gwenyn, Gwneud Ffyn a Gwaith Gof.



**Beth weithiodd yn dda, beth wnaeth ddim gweithio mor dda:**

Yr her fwyaf oedd cyfuniad o gyfyngiadau amser ac anghenion hyfforddi.

Mae diffyg amser ymgysylltu wedi cael traweffaith ar yr hyn rydym wedi gallu'i gyflawni gyda sir y Fflint hyd yma. Ac mae hynny'n wir am bob cyngor rydym wedi gweithio gyda hwy.

Roedd cylch gorchwyl swyddi'r tîm Rheoli Cefn Gwlad wedi ehangu tra bod eu tîm wedi crebachu. Mae eu capasiti i gwblhau dyletswyddau statudol yn awr mor isel, fel bod gweithio ar brosiectau fel hyn, yn ddealladwy, yn eithaf isel ar eu rhestr.

Mae staff yn cael eu hyfforddi mewn cadwraeth a rheolaeth cefn gwlad, yn hytrach na rheoliadau GDPR, cyfathrebu, caniatâd delweddau a.y.y.b. Er mwyn rhoi'r newidiadau hyn ar waith mae angen eu dysgu, ac ychydig iawn o amser sydd yna i wneud hynny. Mae'r ysgogiad i wneud y newidiadau yn cael eu cyfyngu ymhellach, ac yn rhwystr rhag gwneud y gwelliannau hyn.

Roedd cydweithio gyda'r tîm etifeddiaeth ddiwylliannol yn sir y Fflint, a oedd yn gorgyffwrdd gyda'r timau Rheolaeth Cefn Gwlad gyda rhai cyfrifoldebau, yn cynnig posibiliadau cyffrous ar gyfer gorgyffwrdd o fewn eu cynnig gwirfoddoli, sut y gellid symleiddio'r broses honno, a'r cyfleoedd o ran cynigion ar gyfer rhannu gwaith a allai fod o fudd i'r ddau dîm.



Mae'r hyfforddiant sgiliau ymarferol wedi dangos eu bod yn llwyddiannus ac yn boblogaidd. Mae'r berthynas a sefydlwyd rhwng y tîm Rheolaeth Cefn Gwlad a'r darparwr hyfforddiant (Irwedd Griffiths, Bro Gele) wedi parhau, gyda nifer o gyrsiau ychwanegol yn cael eu harchebu'n uniongyrchol gan yr Awdurdod Lleol. Mae'r rhain wedi cynnwys Gweithio o uchder a Gwaith Corfforol (12 person ar gyfer pob cwrs), ac yn ychwanegol at hyn bydd 2 berson arall yn gwneud cwrs diwrnod strimio mewn ymateb i'r hyfforddiant torri llwyni a drefnwyd.

**Beth a ddysgwyd:**

Roedd hon yn enghraifft o'r hyn nad oedd y tîm wedi gallu'i gyflawni hyd yn hyn yn syml iawn.

Roedd gan y tîm Rheolaeth Cefn Gwlad wirfoddolwr yn cydlynu yn ei le, o ganlyniad i gais ariannu llwyddiannus (sy'n parhau hyd ddiwedd Mawrth 2025). Fodd bynnag doedd y gwirfoddolwr oedd yn cydlynu ddim yn gyfrifol am gefnogaeth weinyddol nac am wella polisi na phroses. Drwy'r gwaith hwn, mae'r tîm wedi sylweddoli beth yw'r sbectrwm ehangach o anghenion sydd ei angen ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr, ac wedi adnabod bylchau mewn gwybodaeth y gellid mynd i'r afael â hwy.

Wrth symud ymlaen, byddai'n wirioneddol werthfawr creu rôl gwirfoddoli, efallai ar gyfer rhywun llai abl i weithio y tu allan yn y parc, er mwyn mynd â pheth o waith y gwirfoddolwr oedd yn cydlynu, gan gynnig cefnogaeth a dysgu o amgylch tasgau swyddfa yn hytrach na rolau ymarferol yn yr awyr agored.

**Casgliad:**

Mae'r tîm rheoli Cefn Gwlad, yn ogystal â'r Cyngor ehangach yn cydnabod pwysigrwydd eu gwirfoddolwyr, ac yn gwerthfawrogi'r hyn maent yn ei wneud, ond eu bod, o reidrwydd yn rhoi cymaint o amser ac ymdrech i sicrhau y gall eu safle barhau ar agor, bod unrhyw waith swyddfa wedi dod yn anodd iawn i'w gynnal. Bydd unrhyw gefnogaeth rydym yn gallu ei darparu yn y maes hwn - er nad yw efallai'n cael ei weld fel prif flaenoriaeth - yn cael traweffaith fawr.

Yr hyn na chawsom amser i'w wneud oedd edrych ar daith y gwirfoddolwr, o'r pwynt cyswllt ymlaen. Sut mae cadw cysylltiad â hwy? Oes yna gyswllt rheolaidd rhwng dyddiau gwaith? Sut maent yn gallu cynnal ac annog cyfranogiad gan wirfoddolwyr ar y safle ac mewn ardaloedd cynghorau lleol? Yn y dyfodol, mae'n bosib y byddwn yn gallu edrych ar ffyrdd y cysylltir gyda gwirfoddolwyr presennol a sut mae gwirfoddolwyr newydd yn cael sesiwn gynefino, er enghraifft.